OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 234 (Cy. 53)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019



| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Chwefror 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Ebrill 2019* |



Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 64(1), 64(2)(b), 66, 69 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Ebrill 2019.

### Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

**2.** Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

(a) yn rheoliad 7 (uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1), yn lle "£80" rhodder "£90";

(b) yn rheoliad 11 (terfyn cyfalaf perthnasol), ym mharagraff (2)(a), yn lle "£40,000" rhodder "£50,000";

(c) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal), yn lle "£28.50" rhodder "£29.50";

(d) yn rheoliad 22 (uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1), yn lle "£80" rhodder "£90"; ac

(e) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal), yn lle "£28.50" rhodder "£29.50".

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) O.S. 2015/1843 (Cy. 271).

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015**

**3.** Yn Atodlen 2 (cyfalaf sydd i'w ddiystyru) i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015(**3**), ar ôl paragraff 34 mewnosoder—

"**35.** Unrhyw daliad a fyddai'n cael ei ddiystyru o dan baragraff 73 o Atodlen 10 i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm(**4**) (taliadau sy'n ymwneud ag anabledd a achoswyd gan Thalidomid)."

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

12 Chwefror 2019

(**3**) O.S. 2015/1844 (Cy. 272).

(**4**) O.S. 1987/1967. Diffinnir y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm gan reoliad 2(1) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015. Mewnosodwyd paragraff 73 o Atodlen 10 gan O.S. 2017/870.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Gosod Ffioedd") a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 ("y Rheoliadau Asesiad Ariannol").

Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu bodloni wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt, neu y cynigiant eu darparu neu eu trefnu, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae'r Rheoliadau Gosod Ffioedd hefyd yn cynnwys darpariaeth gyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan wna awdurdod lleol daliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn gwneud darpariaeth o dan y Ddeddf ynghylch y ffordd y mae rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol o adnoddau ariannol person ("A") yn yr achosion a ganlyn—

(a) pan fo'r awdurdod yn tybio, pe bai'n diwallu anghenion A am ofal a chymorth (neu anghenion gofalwr am gymorth), y byddai'n gosod ffi o dan adran 59 o'r Ddeddf, neu

(b) pan fo'r awdurdod yn tybio, pe bai'n gwneud taliadau tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth (neu angen gofalwr am gymorth) drwy wneud taliadau uniongyrchol yn rhinwedd adran 50 neu 52 o'r Ddeddf, y byddai'n ei gwneud yn ofynnol i A dalu, ar ffurf ad-daliad (yn achos taliadau gros) neu gyfraniad (yn achos taliadau net), tuag at y gost o sicrhau'r ddarpariaeth honno o ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd (codi ffioedd o dan Ran 5 o'r Ddeddf) fel a ganlyn:

— cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £80 i £90;

— cynnydd yn y terfyn cyfalaf perthnasol am ofal preswyl o £40,000 i £50,000;

— cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol net ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal o £28.50 i £29.50.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 4 o'r Rheoliadau Gosod Ffioedd (cyfraniadau ac ad-daliadau am daliadau uniongyrchol) fel a ganlyn:

— cynnydd yn yr uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £80 i £90;

— cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol net ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal ac sy'n cael taliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf o £28.50 i £29.50.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol fel a ganlyn:

— mae taliadau a wneir o dan neu gan ymddiriedolaeth a sefydlwyd at ddiben rhoi rhyddhad a chynhorthwy i bobl anabl yr achoswyd eu hanableddau gan y ffaith bod eu mamau wedi cymryd y cyffur o'r enw Thalidomid yn ystod eu beichiogrwydd, i'w hanwybyddu wrth gyfrifo cyfalaf oedolyn at ddibenion asesiad o adnoddau ariannol yr oedolyn hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y

Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.